Lindys yn y dosbarth

Parch at fywyd / Gofal / Tynerwch

"Miss, mae plant dosbarth pump wedi cael bochdew, fel anifail anwes. Gawn ni anifail anwes yn ein dosbarth ni?"
"Yn ystod yr haf mi fyddwn yn astudio pob math o greaduriaid 'gwahanol' . A'r pryd hwnnw mi gawn ni anifeiliaid gwahanol i'w hastudio a bydd rhaid i ni ofalu amdanyn nhw'n ofalus iawn." meddai'r athrawes.
Ar ôl gwyliau'r Pasg roedd y plant yn ysu am fynd yn ôl i'r ysgol. Y rheswm pennaf oedd cael astudio'r anifeiliaid 'gwahanol' oedd yr athrawes wedi sôn amdanyn nhw.
Y bore cyntaf, ar ôl y gwyliau, esboniodd yr athrawes ei bod yn disgwyl amlen arbennig drwy'r post. "A wyddoch chi beth fydd yn yr amlen?" gofynnodd i'r plant. Cafodd bob math o atebion, bochdew, llygoden, pysgodyn aur, bwji ac awgrymodd un bachgen gi.
"Go brin," meddai hithau, y buasai anifeiliaid fel yna yn dod mewn amlen." Esboniodd ei bod yn disgwyl wyau glöyn byw. Roedd y plant i gyd wedi rhyfeddu. Bore drannoeth cyrhaeddodd y postman efo amlen i'r athrawes. Agorodd hithau'r amlen yn ofalus. Mewn bocs bychan tryloyw roedd clwstwr bychan, bach o wyau melyn. Wyau y Glöyn Mawr Gwyn oedd y rhain. Roedden nhw wedi cael eu hanfon o fferm gloynnod byw. Efo'r wyau roedd cyfarwyddiadau ar sut i ofalu amdanyn nhw.
Bob dydd byddai'r plant yn eu hastudio'n ofalus efo chwydd wydr. Ymhen wythnos roedd yr wyau wedi deor a lindys bychain duon yn crwydro ymhob man. Roedd hi'n bryd chwilio am fwyd iddyn nhw. Bob dydd byddai'r plant yn dod a dail bresych i'r lindys. Erbyn y bore roedd y dail wedi diflannu'n llwyr. Mae'n amlwg mai dros nos roedd y lindys yn bwyta. Yn ystod y dydd roedden nhw'n ddigon swrth a chysglyd.
"Miss, mae'r rhain yn bwyta fel eliffantod," meddai un o'r plant.

Am bron i bump wythnos bu'r plant yn cario dail bresych i'r lindys llwglyd. Ond un bore roedd digonedd o ddail ar ôl. Beth oedd yn digwydd, tybed? Roedd y lindys tewion yn crwydro yma a thraw ar hyd ac ar led y cynhwysydd. Chwilio am le oedden nhw i droi'n chwiler.

Esboniodd yr athrawes mai hwn oedd cyfnod y trawsffurfio o fod yn lindys i fod yn löyn byw.

Bob bore byddai'r plant yn mynd ar ei hunion i weld oedd yna löyn byw yn y cynhwysydd. Ac un bore roedd tri glöyn byw gwyn yn y cynhwysydd. Ar ôl eu hastudio'n ofalus awgrymodd yr athrawes mai gwell fyddai eu gollwng yn rhydd. Aeth y plant â nhw i ardd yr ysgol i'w rhyddhau.

Yno y buon nhw yn eu gwylio yn hedfan yn uwch ac yn uwch nes diflannu dros bennau'r tai.

Tymor difyr iawn oedd y tymor hwnnw pan oedd y plant yn gwylio un o ryfeddodau natur o'r ŵy i'r glöyn byw.

O Dduw, mae hanes y glöyn byw yn ddiddorol. Mi hoffwn i ddysgu mwy am fyd natur. Amen.

✦ Ydych chi'n credu ei bod yn rhaid i ni fynd ati i helpu rhai o'r creaduriaid erbyn hyn?

✦ Trafodwch yn fanwl beth ydi cylchred bywyd y glöyn byw.